

## **Profion ar feinwe iau mamogiaid yn helpu i lunio dognau mwy manwl**

Mae cymryd biopsïau o iau mamogiaid magu yn helpu ffermwyr defaid yng Nghymru i ganfod statws mwynau eu diadelloedd ac i fireinio eu dognau.

Mae profi samplau meinwe o iau mamogiaid byw yn gallu bod yn gostus ac nid yw'n arfer cyffredin yn niadelloedd y Deyrnas Unedig.

Mae'r dechneg hon, fodd bynnag, yn cael ei defnyddio'n eang yn Seland Newydd i fonitro statws elfennau hybrin.

Mae astudiaeth yng Nghymru wedi edrych ar ba mor ddefnyddiol ydyw i helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â maeth mamogiaid magu er mwyn darparu darlun cyflawn o statws diadell pan ddefnyddir y dechneg hon ochr yn ochr â phrofion gwaed a samplu porthiant.

### **Proses y treial**

Darparwyd cyllid gan Brosiect Arloesi Ewrop (gweler diwedd yr erthygl). Cynhaliwyd y prosiect ar 12 fferm yng ngogledd Cymru. Ar bob fferm:

- cymerwyd samplau gwaed a meinwe gan wyth mamog cyn iddynt gael hwrdd
- a chymerwyd samplau gwaed gan 15 mamog cyn ŵyna.

Roedd y gwaith monitro hwn, a oedd yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r canlyniadau ac adroddiadau cynghori, yn costio £1,299.67 (heb TAW) ar gyfer pob diadell.

### **Diffygion copr a seleniwm**

Canfu'r gwaith samplu ddiffygion copr mewn dwy ddiadell.

Caiff copr ei ollwng drwy'r iau ac mae'r crynodiad yn addasu'n arafach dros nifer o fisoedd nag a wna yn y gwaed.

Dywed y milfeddyg Joseph Angell, a oedd yn gysylltiedig â'r astudiaeth, fod crynodiadau copr yn yr iau yn rhoi inni well dealltwriaeth o'r cyflenwad hanesyddol, ac mae hyn yn ein galluogi i fod yn fwy rhagweithiol wrth gynllunio addasiadau maeth.

Fe wnaeth y samplau gwaed mewn diadell arall ddangos crynodiadau copr ychydig yn isel, ond cadarnhaodd y sampl meinwe grynodiad uwch na'r arferol.

Gwelwyd gwahaniaeth hefyd â'r crynodiad seleniwm yn y ddiadell hon – roedd o fewn yr ystod arferol yn y sampl gwaed ond ychydig yn ddiffygiol yn y meinwe iau.

Roedd y wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y meinwe iau, felly, yn ddefnyddiol i ganfod yr angen am ychwanegion a diogelwch eu defnyddio.

Roedd y ddiadell hon wedi cael copr a seleniwm ychwanegol yn y gorffennol, a gallai ychwanegu rhagor o gopr fod wedi arwain at eu gwenwyno.

Byddai defnyddio'r canlyniadau gwaed yn unig ar gyfer copr wedi dangos y byddai rhoi ychwanegion o fantais fach, meddai Dr Angell. Er bod y samplau gwaed seleniwm yn dangos lefelau amsugno digonol, profodd y samplau meinwe iau na fyddai'r mamogiaid, heb ychwanegion, wedi bod ar eu gorau.

### **Cost yn erbyn mantais**

Dywed Dr Angell bod angen pwyso cost y samplo yn erbyn perfformiad gwell ac arbedion costau ar ychwanegion elfennau hybrin a gorfwydo dwysfwyd.

“Byddwn, at ei gilydd, yn awgrymu bod samplau meinwe'r iau yn debygol o fod yn ddefnyddiol, yn enwedig yn ystod cam ymchwilio a monitro cychwynnol, fel roedd y sefyllfa ar gyfer y diadellau yn y prosiect hwn.

“Gallai bolws gostio oddeutu £1 y famog ac, os yw'n angenrheidiol, mae'n debygol o fod o fantais, ond os nad yw'n angenrheidiol, mae'n gost ddiangen.”

Yn yr un modd, gall rhoi gormod o ddwysfwyd i famogiaid cyn wyna fod yn gostus iawn a gall arwain at broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â gorfwydo, ychwanegodd Dr Angell.

“I'r gwrthwyneb, mae peidio â rhoi digon o ddwysfwyd cyn wyna yn debygol o arwain at brinder llaeth a llaeth o ansawdd gwael, a gall hynny arwain at afiechydon yn y famog a'r oen,” meddai.

Mae samplo meinwe'r iau yn ddefnyddiol iawn i ffermwyr nad ydynt yn gwybod gallu sylfaenol eu defaid i dreulio elfennau hybrin, na'u hymateb i ychwanegion.

### **Biopsi yn erbyn prawf gwaed**

Mae sampl meinwe iau yn darparu gwybodaeth wahanol i sampl gwaed ynghyd ag amcan hanesyddol llawer mwy hirdymor o statws rhai elfennau hybrin, yn enwedig copr.

Gall y wybodaeth hon, ynghyd â dealltwriaeth o alw disgwylidig y ddafad am faeth, ynghyd â dealltwriaeth o'r cyflenwad posibl sydd ar gael, helpu i wneud penderfyniadau am addasiadau maeth.

Mae dadansoddi gwaed yn dal yn ddefnyddiol ochr yn ochr â biopsïau iau oherwydd fe all ddarparu gwybodaeth fyrdymor am y cyflenwad cyfredol a'r ymateb, meddai Dr Angell.

Pryd mae samplo meinwe yn fwyaf manteisiol

- Pan mai'r nod yw sicrhau'r cynhyrchiant gorau posibl yn hytrach nag ymchwilio i syndrom neu afiechyd clinigol
- Os bydd defaid yn newid porfa'n rheolaidd
- Pan fo gan borfeydd wahanol grynodiadau mwynau
- Pan geir achosion ffiniol, mae'r data ychwanegol yn caniatáu i ffermwyr wneud penderfyniadau mwy gwybodus